OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 2816 (Cy.243)

TRAFNIDIAETH, CYMRU

Gorchymyn Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru (Sefydlu) 2009

Gwnaed - - - -	*20 Hydref 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*22 Hydref 2009*
Yn dod i rym - -	*16 Tachwedd 2009*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 8, 9 a 10 o Ddeddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru (Sefydlu) 2009. Daw'r Cynllun hwn i rym ar 16 Tachwedd 2009 ac mae'n gymwys o ran Cymru .

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y Cod Ymarfer ar Benodiadau Cyhoeddus" ("*Public Appointment Code of Practice*") yw'r Cod Ymarfer ar gyfer Penodiadau gan Weinidogion a gyhoeddwyd ym mis Awst 2009 gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus, sy'n gosod y fframwaith reoleiddiol orfodol y gwneir penodiadau cyhoeddus drwyddi.

Sefydlu Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru

3. At ddibenion cyflawni'r swyddogaethau a ragnodir gan adran 9 o Ddeddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006, ar y dyddiad pan ddaw'r Gorchymyn hwn i rym, fe sefydlir corff corfforaethol o'r enw Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru ("y Pwyllgor").

(**1**) 2006 p.5.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

Cyfansoddiad y Pwyllgor ac aelodaeth ohono

4.—(1) Y mae'r Pwyllgor i gynnwys—

(a) cadeirydd, a benodir yn unol â pharagraff (2):

(b) o leiaf 8 ond dim mwy nac 11 o aelodau eraill, a benodir yn unol â pharagraff (2); ac

(c) 1 aelod ychwanegol, a'r person hwn fydd y person a benodir o bryd i'w gilydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol ag adran 125 o Ddeddf Trafnidiaeth 1985(**3**) i gynrychioli lles Cymru ar y Pwyllgor Ymgynghorol ar Gludiant Pobl Anabl(**4**).

(2) Penodir y cadeirydd ac aelodau'r Pwyllgor, ac eithrio'r aelod a benodir yn unol ag is-baragraff (1)(c), gan Weinidogion Cymru drwy'r Cod Ymarfer ar Benodiadau Cyhoeddus.

(3) Bydd o leiaf 2 o'r aelodau a benodir yn unol â pharagraff (2) uchod yn bobl anabl yn ystyr adran 1(2) o Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995(**5**).

(4) Bydd y cadeirydd neu aelodau eraill o'r Pwyllgor a benodir yn unol â pharagraff (2) uchod:

(a) yn cael eu penodi am y cyfnod a bennir yn yr offeryn penodi ar eu cyfer;

(b) yn cael ymddiswyddo fel aelod neu gadeirydd, drwy hysbysu Gweinidogion Cymru yn ysgrifenedig;

(c) mewn agweddau eraill yn dal ac yn gadael y swydd yn unol â thelerau eu penodiad; ac

(ch) yn addas, pan fyddant yn peidio â dal y swydd, i'w hail-benodi iddi.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru symud aelod o'r swydd os ydynt wedi'u bodloni fod yr aelod hwnnw—

(a) heb esgus rhesymol, heb gydymffurfio â thelerau'r penodiad;

(b) mewn modd arall yn anabl neu heb fod yn ffit i wneud swyddogaethau aelod neu yn anaddas i ddal i fod yn aelod.

Lwfansau a threuliau i aelodau'r Pwyllgor

5. Telir i'r cadeirydd ac aelodau eraill y Pwyllgor y lwfansau a'r treuliau ag y penderfynir arnynt gan Weinidogion Cymru.

Staff

6. Caiff y Pwyllgor, gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru, benodi'r cyflogeion y mae'n ystyried bod eu hangen ar y fath delerau ac amodau ag y caiff, gyda chydsyniad, benderfynu arnynt.

Is-bwyllgorau

7.—(1) Caiff y Pwyllgor—

(a) sefydlu is-bwyllgorau o'r fath ag y dichon o bryd i'w gilydd ystyried fod eu hangen neu y byddai'n ddymunol eu cael;

(b) cyfeirio unrhyw fater ag y dichon o bryd i'w gilydd ei bennu at unrhyw is-bwyllgor o'r fath;

(c) dirprwyo unrhyw un o'i swyddogaethau i unrhyw is-bwyllgor o'r fath; ac

(ch) rheoli gweithdrefnau unrhyw is-bwyllgor o'r fath.

(**3**) 1985 (p.67).
(**4**) Mae'r Pwyllgor Ymgynghorol ar Gludiant Pobl Anabl yn gorff statudol a sefydlwyd gan adran 125 o Ddeddf Trafnidiaeth 1985.
(**5**) 1995 (p.50).